# **Cyfieithu cymunedol**

Mae cymhathu'r di Gymraeg i'r gymuned Gymraeg wedi bod yn heriol ond drwy gynnig cyfle o gael offer cyfieithu ar y pryd a chyfieithydd cymunedol mae modd pontio rhwng dwy garfan o'r gymuned sydd wedi eu rhannu oherwydd nad yw'r di Gymraeg yn cefnogi digwyddiadau Cymraeg oherwydd eu gallu i ddeall.

Mae angen offer cyfieithu a chyfieithydd sydd yn fodlon mentro i wneud y gwaith yn ddi-dâl.

## **Profiad ardal Dinas Mawddwy.**

Rai blynyddoedd  gwnaeth Neuadd Aberangell gais am grant i gael offer cyfieithu ac mae'r neuadd wedi defnyddio'r offer i nifer o weithgareddau yn y neuadd ac yn gymunedol hefyd ac wedi tynnu pobl o bob iaith i weithgareddau.

Mae posib cael incwm o'r offer drwy ei hurio ac mae hyn wedi digwydd sawl tro dros y blynyddoedd.

Offer 15 clustffon is-goch sydd gan y neuadd ac mae'r offer yn cael ei defnyddio ar gyfer cwmni drama Dinas Mawddwy ar gyfer cyfieithu dramâu ar y pryd, sgyrsiau / darlithoedd drwy gyfrwng y Gymraeg gan arbenigwyr hanes.

Mae'r cyfleoedd yn eang i bentrefi gwledig neu grŵp bach gan gynnwys Cyfarfod bach eisteddfodol, gwasanaeth crefyddol, hystingau gwleidyddol, cyfarfodydd blynyddol, cyfarfodydd cyhoeddus o bob math.

Arfon Hughes Dinas Mawddwy.